

Cofion a Chydymdeimlad

Cyda thristwch y daeth y newyddion trist am farwolaeth Mr John H. Williams (Llanefydd), gŵr hynaws a charedig a fu'n ffyddlon a gweithgar fel blaenor yng Nghapel Llanefydd am 64 o flynyddoedd. Diolchwn amdano, am sicrwydd ei ffydd, ac am bob gofal a gafodd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant – Rhian, Rhys, Manon a Mari, a gweddi y teulu yn eu profedigaeth. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â David Jones (Henllan) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth ym marwolaeth sydyn ei fab, Glyn, oedd yn byw yn Llundain. Cyflwynwn y teuluoedd hyn i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi nerth a chynhaliadaeth Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion at Ifor Lloyd (Llanfair) a Catrin Jones (Llansannan) sydd heb fod yn dda ac wedi gorfod treulio ychydig o amser yn yr ysbyty. Cofiw'n am y ddau, a phawb arall o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Cyflwynwn hwy a'u teuluoedd i ofal Duw, gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu hamgylchynu.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Adnoddau

- **Os nad ydych yn defnyddio'r we, mae modd i chi wrando a gwyllo'r oedfa a ddarlledir ar y Sul ar DVD, neu gallwch wrando ar CD, neu ddarllen copi papur o'r gwasanaeth.** Rhowch wybod i Mair os byddwch yn dymuno un o'r cyfryngau yma a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwysu '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.
- **Ar gyfer plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Adnoddau eraill:** ar wefan www.gair.cymru ac ar wefan www.holi-cymru.org.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 1 Tachwedd 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Ar drothwy mis Tachwedd, dyma ni eto yn wynebu cyfnod clo heb sicrwydd beth fydd yn digwydd dros fisoedd y gaeaf. Tydi hi ddim yn sefyllfa hawdd i neb ohonom, ond rydym yn gweddio'n arbennig dros rai sydd wedi eu siomi a'u blino wrth i drefniadau a gobeithion fynd ar chwâl, ac eraill sy'n galaru neu'n poeni am eu perthnasau a'u bywoliaeth. Nid yn unig mae'r sefyllfa hon yn effeithio ar yr hyn y gallwn ei wneud rŵan, ond mae'n dylanwadu hefyd ar sut yr ydym yn edrych ymlaen at y dyfodol. Wrth wrando ar y newyddion a sylwi bod yr haint yn cynyddu ar draws Ewrop eto, o ble daw cymorth i ni? Dwi'n siŵr eich bod yn gyfarwydd ag ateb Salm 121 i gwestiwn tebyg – 'daw fy nghymorth oddi wrth yr Arglwydd, creawdwr nefoedd a daear.'

Ond beth mae hynny'n ei olygu – bod yr Arglwydd yn gymorth i ni? Petawn yn gofyn i chi sut mae teulu a ffrindiau wedi bod yn gymorth i chi yn y gorffennol sut fydddech chi'n ateb? Trwy fod yn gwmni, yn glust i wrando ar ein hofnau a chydymdeimlo â ni yn ein tristwch? Trwy gario baich a'n hannog pan oeddem yn teimlo nad oedd gennym nerth i gario 'mlaen? Mewn gwendid yr ydym yn gwerthfawrogi cariad a charedigrwydd eraill fwyaf. A phan drown at y Beibl a gofyn sut mae'r Arglwydd yn gymorth i ni, cawn ein cyfeirio at gymeriad Duw, ac yn benodol at Ei ddyfodiad atom yn Iesu Grist.

Yn ôl Salm 68, mae Duw yn dad i'r amddifaid ac yn amddiffynnydd y gweddwon (ad. 5), sydd yn ei ddaioni yn darparu i'r anghenus (ad. 10). Ac yn y Testament Newydd gwelwn sut y mae'n gwneud hynny trwy ei Fab. Un esiampl o hyn oedd Ei ymwneud â theulu sy'n galaru yn Ioan 11. Roedd Iesu'n adnabod y ddwy chwaer, Martha a Mair yn iawn, ac mae'n dod atynt yn eu cyfyngder, ac yn creio wrth weld y dinistr y mae pechod a marwolaeth yn ei achosi gyda Lasarus yn y bedd. Ond, gan mai Ef yw'r Gwarddwr, mae'n cynnig gobaith iddynt yn eu tor-calon, ac yn wir mae Iesu'n dod â'r gobaith hwn i bawb o'i ddisgyblion ym mhob oes. Yn y tywyllwch

mae Goleuni'r Byd yn disgleirio, ac yn Ioan 11:25-26 mae'n amlygu Ei awdurdod dros hyd yn oed farwolaeth gyda'r geiriau syfrdanol: "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth."

'Mae'r ARGLWYDD yn Dduw bendigedig!

Mae e'n edrych ar ein holau ni o ddydd i ddydd.

Duw ydy'n hachubwr ni! (Salm 68:19 Beibl.net)

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Sul yma – 1^{af}

- **Ysgol Sul ar-lein**

Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.

- **Oedfa FYW ar y we**

Cynhelir oedfa fyw ar y we am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

- **Sgwrs ar ZOOM**

Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i gael sgwrs ar ZOOM. (Bydd y manylion cysylltu ar gael ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled.)

- **Gwasanaeth Diolchgarwch Capel Cefn Berain** ar ZOOM am

11:30. Cysylltwch ag Eirian i gael y manylion cysylltu.

- **Cwrs Alfa Ieuentid**

Bydd y Cwrs Alfa Ieuentid yn cyfarfod ar ZOOM.

- **Cwrs Alfa Oedolion**

Bydd y Cwrs Alfa Oedolion yn cyfarfod ar ZOOM.

- **Grwpiau Tai** (ar ZOOM)

- **Ysgol Sul ar-lein**

Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.

Llun – 2^{il}

Mawrth – 3^{ydd}

Mercher – 4^{ydd}

Sul – 8^{fed} a'r 15^{fed}

- **Oedfa FYW ar y we**

Cynhelir oedfa fyw ar y we am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

Llun – 9^{fed}

- **Cwrs Alfa Ieuentid** (ar ZOOM)

Mawrth – 10^{fed}

- **Cwrs Alfa Oedolion** (ar ZOOM)

Mercher – 11^{eg}

- **Cyfarfod Gweddi**

Mae croeso i unrhyw un ohonoch i ymuno yn y Cyfarfod Gweddi fydd yn cael ei gynnal **am 7:30 yr hwyr**, eto ar ZOOM. Holwch Rhodri i gael y manylion cysylltu ac/neu os oes gennych unrhyw geisiadau gweddi.

Sul – 15^{fed}

- (Gweler manylion dydd Sul, Tachwedd 8^{fed})

Dydd Gweddi'r Byd

Mae Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd 2021 wedi cael ei baratoi gan Chwirydd Cristnogol Vanuatu a'r thema fydd 'Adeiladwch ar Sylfaen Gadarn'.

Cynhelir **Cynhadledd Dydd Gweddi'r Byd** (ar ZOOM) **dydd Iau, Tachwedd 22^{ain}** o 10.30 – 12.30. Os ydych am ymuno yn y Gynhadledd, gofynnir i chi gysylltu â Margaret Morgan drwy ebost (margaretmaudmorgan@gmail.com) erbyn Tachwedd 12^{fed}. Bydd hynny'n eu galluogi i anfon y ddolen i chi ar ddechrau wythnos y Gynhadledd.

Gobeithiwn ninnau, fel arfer, allu cynnal Gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn ein heglwysi diwedd Chwefror / dechrau Mawrth 2021. **Os oes unrhyw eglwys heb dderbyn y pecyn blynyddol sy'n eich galluogi i archebu'r taflenni ar gyfer y gwasanaeth**, plis cysylltwch â Mair. Am eleni, anfonir pob archeb yn ddi-dâl drwy'r post.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (11^{eg}), os gwelwch yn dda.